**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron gynhaliwyd nso Lun, Hydref 11eg 2021 yng Nghanolfan Deunant**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Emlyn Jones, Wedna Williams, RG Williams, RJ Williams, Geraint Jones, Dafydd Williams a Mari Evans
**Yn y gadair:** Cyng Nesta Roberts
**1)Ymddiheuriadau a datgan diddordeb :** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Iain Roberts a Wil Evans. Datganodd y Cynghorwyr Wenda Williams a a Dafydd Williams ddiddordeb yn eitem 4.1)Tendr barbio y cae chwarae.
**2)Cyhoeddiadau y cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd y Cyng RG Williams yn ôl i'r Cyngor wedi cyfnod o waeledd.
**3)Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg o Fedi 2021:** Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.
**4) Materion yn codi o'r cofnodion**
**i)Cae Chwarae:** Adroddodd y clerc fod Steffan Jones o Gyngor Gwynedd wedi addo y bydd yn sicrhau y bydd y biniau yn cael eu gwagio yn rheolaidd.
Tendrau torri gwellt: Derbyniwyd un tendr, gan William John Jones, Pant y Dwr, Rhydlios yn rhoi pris o £375 am y gwaith. Mae ganddo yswyriant 'public liability' hyd at £5miliwn, sydd yn ddigonnol yn ôl cyfreithiwr Unllais Cymru. Penderfynwyd derbyn y dendr gan WJ Jones.
**ii)Derbyniwyd ateb gan y Peiriannydd Ardal i faterion ffyrdd mis Medi fel a ganlyn:**
Ail baentio llinellau gwyn: Mae'r gwaith i ail farcio'r llinellau yma eisoes wedi'i adnabod a'i nodi ar y rhestr waith i'w flaenoriaethu a chaiff sylw pan fydd adnoddau'n caniatáu. Mae'r Cyngor Cymuned o'r farn fod angen gwneud y gwaith yma ar frys gan fod y ffyrdd yn beryglus heb linellau gwyn amlwg.
Man pasio ger Meillionnydd Bach: Mae'r gwaith yma wedi ei roi ar y rhestr waith a chaiff sylw pan mae adnoddau yn caniatáu.
Cerrig ger Anhegraig: Mae'r Archwiliwr am gysylltu efo perchennog Anhegraig er mwyn trafod y cerrig sydd gydag ochr y ffordd.
**iii)Materion yr Eglwys Newydd:** Nid oes cyfarfod cyhoeddus wedi ei drefnu hyd yma oherwydd risg iechyd o ganlyniad i'r coronafeirws pan mae llawer o bobl yn ymgynull o dan yr unto.
vi)Ymgynghoriad Ardal Ni: Penderfynodd y Cyngor ateb cwestiynau a gyflwynwyd i'r Cyngor gan Alys Lloyd Jones fel rhan o ymgynghoriad Ardal Ni fel a ganlyn:
**1)Yn gyffredinol, sut ydych chi'n teimlo am ardal Pen Llŷn fel lle i fyw ar hyn o bryd:**
*a)Beth sy'n dda am yr ardal? (hyd at 5 peth):*
*i)Lle braf i fyw*
*ii)Cymuned glos*
*iii)Yr iaith Gymraeg yn yn iaith fyw*
**b)Beth sydd ddim mor dda am yr ardal? (hyd at 5 peth)**
*i)Prisiau tai yn uchel*
*ii)Gwasanaeth tacsi a thrafnidiaeth gyhoeddus yn wael yma*
*iii)Llawer o bobl hŷn yn byw ar eu pennau eu hunain yma mewn unigrwydd a heb gartref henoed yn lleol*
**2. Dychmygwch yn y flwyddyn 2035 eich bod yn byw yn yr ardal ddelfrydol. Beth fyddai wedi newid er mwyn i hyn ddigwydd? (adnabod 3-5 maes blaenoriaeth. Wrth ddod i'ch casgliad, mae croeso i chi ystyried yr ystadegau a'r penawdau yn y llyfryn electroneg 'Datganiad Ardal' sydd wedi ei atodi)**
*i)Pobl ifanc yn medru fforddio prynu tai yn yr ardal*
*ii)Y tymor twristiaid yn cael ei ymestyn*
*iii)Mwy o ynni adnewyddol yn cael ei gynhyrchu*

*iv)Cyngor Gwynedd yn gwrando mwy ar lais y gymuned leol, yn enwedig ym maes cynllunio*

**3) a)Pwy yw'r prif sefydliadau a grwpiau fyddai'n gallu dod at ei gilydd i gyflawni'r newidiadau sydd eu hangen?**

*Y Cyngor Cymuned*
*Y Grwp Twristiaeth*
*Pwyllgorau y neuaddau a'r canolfanau cymunedol.*

**b)Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf?**

*Dim yn ymwybodol o waith ymgynghori yn ddiweddar, oherwydd Covid mae'n debyg. Mae ymgynghori wedi bod yn y gorffennol trwy Cymunedau yn Gyntaf, ond y Cyngor yn teimlo nad yw yr ymgynghori wedi arwain at ddatblygiadau neu welliannau yng nghymuned Aberdaron.*

Cytunodd y Cyng Geraint Jones gysylltu gyda Alys Lloyd Jones i drafod ar ran y Cyngor.

**vii)Cyfarfod Meddygfa Rhydbach:**

Cynnigwyd dau ddyddiad gan David Shaw, Rheolwr y feddygfa sef y 21ain o Hydref a'r 9fed o Dachwedd. Penderfynwyd derbyn y 9fed o Dachwedd fel dyddiad gyda y Cynghorwyr Nesta Roberts, Wenda Williams a Geraint Jones i fynychu.

Trafodwyd y cwestiynnau sydd i'w gofyn i'r Rheolwr a'r meddygon yn ystod y cyfarfod a phenderfynwyd gofyn y cwestiynnau canlynol:

1)Pam fod cyn lleied o apwyntiadau ar gael pan mae'r llinellau ffôn yn agor am 8.30 y bore?
2)Faint o apwyntiadau sydd ar gadw bob dydd (h.y faint sydd ar gael) a pham na ellir trefnu apwyntiadau ymlaen llaw.
3)Teimlir fod staff y dderbynfa yn gallu bod yn eiriol ymosodol ar brydiau gan ddangos diffyg anwyldeb.
4)Mae staff y dderbynfa yn gofyn pam mae cleifion eisiau gweld meddyg, nid pawb sydd eisiau dweud y rhesymau wrth staff y dderbynfa.
5)Pam nad yw nyrsus yn ffonio cleifion i roi canlyniadau profion gwaed? Mae staff y dderbynfa ar hyn o bryd yn ffonio i roi canlyniadau a hynny mewn lle cyhoeddus, pwy sydd yn clywed yr hyn maent yn ei ddweud ar y ffôn?
6)Mae pobl ieunac wedi cael brechiad Covid cyn ambell i berson hŷn, sut bod hyn wedi digwydd?

**viii)Canolfan Crud y Werin:** Ni dderbyniwyd llythyr gan Sefydliad y Merched hyd yma, cadarnhawyd y bydd llythyr yn cael ei dderbyn cyn y cyfarfod nesaf.

**5) <u>Gohebiaethau</u>**

i)Ymgynghoriad gan Lywodraeth San Steffan i gryfhau gorfodaeth gyfreithiol ar ddefnyddwyr beiciau dŵr: Mae'r Cyngor Cymuned yn cefnogi y mesurau.
ii)Llythyr gan Mari Tudur o Grwp Cynefin ynghylch ymgynghoriad angen am dai yn ardal Aberdaron. Bydd y Cyng Nesta Roberts yn cadeirio gweminar sydd wedi ei threfnu gan yr Hwylusydd Tai Gwledig ar y 13eg o Hydref. Mae llythyr wedi ei ddosbarthu i breswylwyr yr ardal fel rhan o'r ymgynghoriad. Nodwyd nad ydi y linc i'r ymgynghoriad yn gywir ar y llythyr a bod angen ffordd well i ledaenu y wybodaeth am yr ymgynghoriad e.e trwy y cyfryngau cymdeithasol.

**6) <u>Cynllunio</u>**

C21/0820/30/LL:Codi estyniad i'r sied wartheg bresennol ac addasiadau i greu storfa dail ac iard fwydo dan do, Cwrt, Uwchmynydd - dim gwrthwynebiad.

**7)Coeden Nadolig:** Adroddodd y Cyng Geraint Jones na fydd caniatad i osod coeden o flaen y Gegin Fawr eleni, a gofynwyd am awgrymiadau am leoliad i'r goeden erbyn y cyfarfod nesaf.

**8)Ariannol**

Derbyniwyd adroddiad ar sefyllfa ariannol y Cyngor a nodwyd fod y gwariant a'r derbyniadau ar hyn o bryd am y flwyddyn ariannol o fewn y gyllideb.

Mae cryn wariant wedi bod eleni o ganlyniad i waith ail ddatblygu y cae chwarae, mae'r derbyniadau ar gyfer y prosiect yma wedi ei dderbyn ar ffurf cyfraniad gan Bwyllgor y Cae

Chwarae sydd wedi bod yn llwyddiannus mewn derbyn grantiau a chynnal gweithgareddau codi arian.
Nodwyd ei bod yn bwysig fod y gymuned yn dod i wybod beth yw gwerth y buddsoddiad yma ynghyd a'r amser mae aelodau y pwyllgor a gwirfoddolwyr wedi ei ymroi i'r prosiect.

**Taliadau**

Iwan Hughes: £186.09 (cyflog)
HMRC (Paye): £46.60
Wynnstay: £798 (Bwrdd picnic)
Owen Vaughan Jones: £60 (biniau i'r lôn)
Nesta Roberts: £12 (taliad cerdyn sim ar gyfer y camerau cctv yn y cae chwarae, trwy arche sefydlog)

**Derbyniadau**

Llechen Llŷn: £75 (ail osod carreg fedd)
Hefin Underwood: £85 (carreg fedd Donald Roberts)

**9) <u>Materion ffyrdd a llwybrau</u>**

i)Pont Bodnant: Mae cerrig yn rhydd yn y bont.

ii)Nid yw y goleuadau ar yr arwyddion cyfyngu cyflymder yn gweithio ger Ysgol Crud y Werin.

iii)Mae angen glanhau arwyddion ffyrdd yn yr ardal.

iv)Nid oes arwyddion ar yr arwyddbyst ger Porthor.

v)Mae twll yn y ffordd ar allt Bwlch Clawdd.

vi)Cyfeirwyd at ymddangosiad blêr tai stad Congl Meinciau a phenderfynwyd anfon at Gyngor Botwnnog i dynnu sylw.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor nos Lun, Tachwedd yr 8fed yn Neuadd Rhoshirwaun am 7.30.**